# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 3**

TREFNIADAETH YSGOLION

**PENNOD 2**

CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION

*Sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir*

**40 Cyfyngu ar sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir**

(1) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caniateir i ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol newydd gael ei sefydlu yng Nghymru.

(2) Ni chaniateir i ysgol sefydledig nac ysgol arbennig sefydledig newydd gael ei sefydlu yng Nghymru.

(3) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caniateir i ysgol a gynhelir gael ei therfynu.

(4) Dim ond yn unol â'r Rhan hon y caniateir i newid gael ei wneud i ysgol a gynhelir sy'n newid rheoleiddiedig mewn perthynas â'r math o ysgol o dan sylw. (5) Ni chaniateir i unrhyw newid gael ei wneud i ysgol a gynhelir sy'n newid cymeriad crefyddol yr ysgol neu'n peri i ysgol gaffael neu golli ei chymeriad crefyddol.

(6) Mae is-adran (3) yn cael effaith yn ddarostyngedig i adran 16(5) (pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod ysgol yn cau).

(7) Mae Atodlen 2 (sy'n disgrifio newidiadau rheoleiddiedig) yn cael effaith.

## 41 Cynigion i sefydlu ysgolion prif ffrwd

(1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i sefydlu—

(a) ysgol gymunedol newydd, neu

(b) ysgol feithrin newydd a gynhelir.

(2) Caiff unrhyw berson wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd.

## 42 Cynigion i newid ysgolion prif ffrwd

(1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion—

(a) i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol gymunedol;

(b) gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 (agor neu gau chweched dosbarth ysgol) i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;

(c) i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 10, 11, 12 neu 13 o Atodlen 2 (cynyddu a lleihau capasiti) i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig os nad oes gan yr ysgol honno gymeriad crefyddol;

(d) i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol feithrin a gynhelir.

(2) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wneud cynigion i wneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol.

## 43 Cynigion i derfynu ysgolion prif ffrwd

(1) Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i derfynu—

(a) ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, neu

(b) ysgol feithrin a gynhelir.

(2) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wneud cynigion i derfynu'r ysgol.

## 44 Cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion arbennig cymunedol

Caiff awdurdod lleol wneud cynigion—

(a) i sefydlu ysgol arbennig gymunedol newydd,

(b) i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol o'r fath, neu

(c) i derfynu ysgol o'r fath.